# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 4 Medi 2007

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Dirprwy Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## Cwestiynau i'r Dirprwy Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

**Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cymryd i sicrhau bod modd i bob rhan o Gymru elwa ar y Gemau Olympaidd a gynhelir yn Llundain yn 2012? (WAQ50325)

**Y Dirprwy Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Mae Grŵp Llywio Cymru ar gyfer Gemau 2012 wedi llunio Cynllun Etifeddol drafft sy'n nodi'r amrywiaeth o fuddiannau economaidd, chwaraeon, diwylliannol a chymdeithasol posibl ledled Cymru. Byddaf yn datblygu'r gwaith trawsbynciol hwn gyda'm cydweithwyr yn y misoedd i ddod ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am y cynnydd a wnaed.

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU am yr anghydfod rhwng First Great Western a threfnwyr Cwpan Rygbi'r Byd ynghylch gwasanaethau trên ar 6 Hydref 2007? (WAQ50328)

**Ieuan Wyn Jones:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau â Gweinidogion Llywodraeth y DU ynglŷn â'r anghydfod ynghylch darpariaeth gwasanaethau rheilffordd First Great Western ar gyfer gêm gynderfynol Cwpan Rygbi'r Byd ar 6 Hydref 2007.

Mae First Great Western (FGW) yn rhedeg gwasanaethau rhwng Caerdydd a Llundain. Yr Adran Drafnidiaeth sy'n gyfrifol am reoli'r fasnachfraint hon. Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am y gwasanaethau a gaiff eu rhedeg gan Drenau Arriva Cymru, ac nid yw hyn yn cynnwys gwasanaethau rhwng Caerdydd a Llundain.

Mae fy swyddogion wedi cynnal trafodaethau rheolaidd â'r Adran Drafnidiaeth a Network Rail ynglŷn â'r mater hwn ac maent wedi bod yn lobïo er mwyn datrys y broblem ar fy rhan.

Y sefyllfa bresennol yw bod FGW a Network Rail wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau y gall teithwyr deithio adref ar ôl y gêm o dan sylw. Mae Network Rail wedi diwygio eu trefniadau cynnal a chadw traciau arferol, a fydd yn galluogi FGW i redeg nifer o wasanaethau ychwanegol ar ôl y gêm (disgwylir i hyn fod yn dri gwasanaeth). Bydd amseroedd manwl y gwasanaethau hyn ar gael maes o law.

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd, mewn cydweithrediad â Gweinidogion Llywodraeth y DU, i osgoi unrhyw anghydfod ynghylch amserlenni trên yn y dyfodol a allai beri bygythiad i ddigwyddiadau chwaraeon? (WAQ50329)

**Ieuan Wyn Jones:** Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda Stadiwm y Mileniwm, yr Adran Drafnidiaeth, Network Rail a sefydliadau rheilffordd eraill i sicrhau'r canlyniad gorau posibl i deithwyr sydd am deithio ar y trên i ddigwyddiadau chwaraeon yn Stadiwm y Mileniwm.

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am hynt ffordd liniaru'r M4 ger Casnewydd a chadarnhau a yw'r holl asesiadau gofynnol o effaith amgylcheddol y gwaith wedi'u cynnal? (WAQ50342)

**Ieuan Wyn Jones:** Mae manylion yn cael eu datblygu ar y Prosiect M4 Newydd gyda'r bwriad o geisio pwerau statudol i'w gyflwyno. Mae hyn yn cynnwys cynnal nifer o brosesau sy'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth o ran yr amgylchedd dynol a safleoedd bywyd gwyllt, cynefinoedd a rhywogaethau wedi'u diogelu a gaiff eu nodi yn Natganiad Amgylcheddol y Prosiect pan gaiff Gorchmynion drafft o dan y Ddeddf Priffyrdd eu cyhoeddi - a raglennwyd ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'r rhaglen hefyd yn darparu ar gyfer cynnal Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus posibl i'r Gorchmynion drafft yn 2009. Byddai hyn yn

caniatáu i wrthwynebiadau, cynrychioliadau a llythyrau o gefnogaeth i'r Prosiect gael eu gwrando gan Arolygydd annibynnol, a fyddai'n gwneud argymhellion ar y cynigion, er mwyn i mi benderfynu ar y ffordd ymlaen.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Pa gynlluniau sydd gennych i ddiwallu anghenion iechyd cyn aelodau o staff yng Nghymru? (WAQ50330)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Rwyf yn benderfynol o wneud cymaint ag y gallaf i helpu cyn-filwyr ac i gydgysylltu gwasanaethau ar eu cyfer i gydnabod y gwasanaeth y maent wedi'i roi i'r wlad.

Mae cyn-filwyr sy'n cael pensiwn rhyfel eisoes yn cael blaenoriaeth o ran archwiliad a thriniaeth ar gyfer cyflyrau y maent yn cael pensiwn rhyfel ar eu cyfer.

Mae fy swyddogion yn gweithio gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn i ddatblygu cynllun peilot yn Ne Cymru a fydd yn darparu gwasanaeth therapydd cymunedol newydd i gyn-filwyr. Bydd canlyniadau'r cynllun peilot yn rhoi tystiolaeth uniongyrchol o'r ffordd orau y gallwn wasanaethu anghenion cyn-filwyr yn y dyfodol.

Rwyf yn trefnu cyfarfod â Phrif Weithredwr yr elusen Combat Stress i drafod iechyd meddwl cyn-filwyr.